# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher - 13.12.17 - yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** Geraint Edwards (Cadeirydd), Dylan Thomas, Huw Davies, Ian Williams, Keith Carroll, Kevin Goodchild, Geraint Micah, David Griffiths, John Griffiths, Louise Hughes (Cynghorydd Sirol), Glenda Edwards (Clerc).

1. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **Ymddiheuriadau:** Malcolm Hills.

3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y **08.11.17** fel rhai cywir.
   **Cynnig –** Kevin Goodchild **Eilio –** Keith Carroll **Arwyddwyd –** Geraint Edwards.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (08.11.17):**
   a) **Toiledau Cyhoeddus -** llythyr gan Gyngor Gwynedd yn cadarnhau ei bod yn falch i barhau gyda'r cynllun partneriaethu hefo'r Cyngor Cymuned am y flwyddyn nesaf – 2018/19.
   b) **Marie Curie –** llythyr yn diolch i'r Cyngor Cymuned am y rhodd ariannol = £50.00.
   c) **Gwerthiant Tir ger Maes Parcio Tyn y Buarth –** llythyr wedi ei dderbyn gan Aled Gwyn, Cyngor Gwynedd
   **Penderfyniad –** llythyr i'w anfon i ateb ei sylwadau.

5. **Gohebiaeth:**
   a) **Y Groes Goch –** cais am gyfraniad ariannol ➞ Pawb yn hapus i gefnogi'r cais yma = **£25.00.**
   **Cynnig:** Keith Carroll **Eilio:** Huw Davies.
   b) **Gwasanaeth Ambiwlans Cymru -** cais am gyfraniad ariannol i gefnogi gweithwyr y gwasanaeth ambiwlans ➞ penderfynu peidio cefnogi y cais yma.
   c) **Eisteddfod Genedlaethol Llangollen -** cais am gyfraniad ariannol ➞ penderfynu peidio cefnogi y cais yma.
   d) **Cerrig ar y Llwybr Ceffyl (33) yn Rhoslefain -** ateb wedi ei dderbyn gan Liz Haynes ynglyn a'r llwybr yma. Cadarnhaodd ei bod wedi ymweld â'r safle ac oherwydd mae sefyllfa "dros dro" yw hyn a bod lle i fynd heibio i'r ochr o'r cerrig, ni fydd hi yn mynd a'r mater ymhellach, ond cadarnhaodd y bydd yn ail ymweld â'r safle yn ystod y misoedd nesaf.
   e) **Un Llais Cymru** - Agenda'r cyfarfod ar y 28.11.17. Cofnodion y cyfarfod diwethaf ar y 26.09.17.
   Nodwyd fod Mr J D Roberts, Cyfrifydd, yn ymddeol. Bydd rhaid trefnu cael rhywun arall i wneud archwiliad mewnol nesaf y Cyngor Cymuned.
   f) **Llywodraethwyr Ysgol Craig y Deryn -** nodwyd fod Pwyllgor Llywodraethwyr Ysgol Craig y Deryn yn cael ei gynnal yn yr iaith Gymraeg a bod dim arian ar gael iddynt dalu am gyfieithydd, felly byddai David Griffiths ddim yn gallu cynrychioli Cyngor Cymuned Llangelynnin ar Lywodraethwyr Ysgol Craig y Deryn.
   **Penderfyniad** ➞ Llythyr i Mai Bere, Cyngor Gwynedd, i'w gwneud yn ymwybodol fod yr aelodau ddim yn hapus ynglŷn â'r sefyllfa yma.

6. **Materion Cynllunio**:
   a) **Cais: NP5/69/50F – Rola, Llwyngwril –** Adeiladu estyniad deulawr ar y ffrynt, estyniad unllawr ar yr ochr a ports ➞ dim sylwadau na gwrthwynebiadau gan y Cyngor Cymuned i'w cyflwyno i'r Parc Cenedlaethol Eryri.

7. **Adroddiad Ariannol**: Adolygiad ariannol ar gyfer cyllid 2018/19 wedi ei wneud.
   Derbyniwyd Adroddiad Mis Tachwedd 2017 yn gywir.
   **Cynnig –** Ian Williams **Eilio –** Geraint Micah **Arwyddwyd –** Geraint Edwards.

**a)** **Praesept y Cyngor Cymuned ar gyfer 2018/19 =** Cais i'w gyflwyno i Gyngor Gwynedd cyn diwedd Ionawr 2018. Cafwyd trafodaeth a phleidlais ynglŷn â hyn a phenderfyniad y mwyafrif o'r aelodau oedd i godi'r praesept.
**Penderfyniad** ➞ Codi'r Praesept i **£9,800.00 -** (i fyny £2,000.00)
Bydd yn cael ei dalu mewn dau randaliad o £4,800.00 ym Mis Ebrill a Mis Awst 2018.
**Cynnig:** Dylan Thomas **Eilio:** Kevin Goodchild.

**b)** Trafodwyd cael un cyfrif banc yn HSBC yn lle dau …………
**Penderfyniad** ➞ cau'r cyfrif "Business Money Manager" a throsglwyddo'r arian i mewn i'r "Community Account".

**c)** Siec i Geraint Edwards i dalu am y Cebl a Box Ceblau newydd i'r Coed Nadolig **= £23.88.**
**d)** Siec i Geraint Micah i dalu am y Goeden Nadolig i Roslefain = **£90.00.**
**e)** Siec i Geraint Micah i dalu am y gwaith cynnal a chadw'r llwybrau cyhoeddus am y flwyddyn ddiwethaf **= £468.00.**
**f)** Siec i'r Groes Goch – Gogledd Cymru – cyfraniad ariannol gan y Cyngor Cymuned **= £25.00.**

**8. <u>Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:</u>** Dim

**9. <u>Adroddiad y Cynghorydd Sirol</u>:**

**a)** Louise Hughes wedi mynychu Cynhadledd Rheilffordd Arfordir y Cambrian ar y 10.11.17, i gael atebion i'r ddau broblem a godwyd yn eu cyfarfod diwethaf ar y 03.03.17 sef =

- Diffyg goleuadau ym maes parcio Gorsaf Llwyngwril
- Rhwystrau diogelwch/wal derfyn prifford rhwng Llwyngwril a Friog.

Cafodd Louise gadarnhad yn y cyfarfod ar y 10.11.17 y byddai'r gwaith yma yn cael ei wneud ond doedd dim dyddiad wedi ei osod i gychwyn y gwaith eto.

**b)** Louise wedi cael galwad ffôn gan Mr E Wilde, Llwyngwril i adael iddi wybod nad oedd yn cytuno gyda'r holl gyfraniadau ariannol mae'r Cyngor Cymuned yn rhoi i wahanol elusennau.

**c)** Louise wedi cael galwad ffôn gan Mr A Richards ynglŷn â'r gwerthiant tir ger maes parcio Tyn y Buarth.

**10. <u>Unrhyw Fater Arall</u>:**

**a)** Diolch i bawb am helpu clirio'r cae chwarae.
**b)** Geraint Micah wedi cael ei atgoffa fod y tyrchod yn dal i wneud llanast yn y cae chwarae!!!
**c)** Diolch i bawb am helpu rhoi'r Coed Nadolig i fyny yn Rhoslefain a Llwyngwril.
Efallai archebu fwy o oleuadau lliw erbyn Nadolig nesaf i Roslefain/Llwyngwril ➞ trafod hyn ymhellach eto.
**d)** Diolch i Emlyn Roberts a'r teulu am y Goeden Nadolig i Lwyngwril.
**e)** Diolch i Geraint Williams am wneud y gwaith trydanol.
**f)** Trefnu i dynnu'r Coed Nadolig lawr ar y penwythnos cyntaf yn Ionawr - Dydd Sadwrn 06.01.18.
**g)** Adroddodd Huw Davies fod ochrau'r ffordd o Rola i Encil, angen sylw.
**Penderfyniad** ➞ llythyr i Gyngor Gwynedd i dynnu ei sylw at y broblem yma.
**h)** Biniau Halen – ydi Cyngor Gwynedd wedi llenwi bob bin halen neu oes biniau angen cael ie llenwi?
Kevin Goodchild wedi cynnig edrych os oes biniau angen ei llenwi.

## <u>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :- Nos Fercher – 10.01.18 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan</u>

**<u>Arwyddwyd</u>**
**Cadeirydd ………………………………………………………………………………………… Dyddiad ………………………………**